# SESIWN 3
# ENWAU BENYWAIDD/GWRYWAIDD
# TAR Cynradd

# Adolygu Rhannau Ymadrodd

Kahoot!

# ENWAU

Yn y Gymraeg, **mae pob enw yn wrywaidd, yn fenywaidd neu'n lluosog**. Fel arfer, rydym yn gallu gweld enwau, e.e. ci, coeden, bwced.

Os yw enw benywaidd unigol yn dod ar ôl 'y' neu ''r', mae llythyren gyntaf yr enw yn newid, e.e. y **g**ath, i'r **b**otel. **Y treiglad meddal** yw'r enw ar y newid yma.

# CENEDL ENWAU

Mae gan bob enw yn y Gymraeg *genedl*, hynny yw, mae naill ai'n *fenywaidd* neu'n *wrywaidd.* Yn y geiriadur dynodir cenedl enw fel hyn:

eg – enw gwrywaidd e.e. plentyn

eb – enw benywaidd e.e. coeden

# CENEDL ENWAU

Serch hynny, mae cenedl rhai geiriau yn amrywio yn ôl ardal neu dafodiaith.

Er enghraifft, mae'r gair *munud* yn tueddu i fod yn wrywaidd yn y Gogledd ac yn fenywaidd yn y De.

**Gogledd – dau funud; y munud hwnnw**

**De – dwy funud; y funud honno**

# CENEDL ENWAU

Yn y geiriadur, defnyddir ***egb*** i ddynodi enw a all fod naill ai'n  wrywaidd neu'n fenywaidd.

# Yn y dosbarth…



# Gwrywaidd

**Dim treiglad ar ôl ‘y’:**

y bachgen
y coleg
y drws

**Dim treiglad ar ôl y gair:**

y bachgen da
y coleg mawr
y drws melyn

**Rhifau Mr + y gair:**

dau + TM
tri + TLl
pedwar + x

# Gwr neu Ben?

# Benywaidd

**Treiglad meddal ar ôl ‘y’:**

y ferch
y ddesg
y gath

Ond x ‘ll/rh’ – y rhaglen

**Treiglad me**
y rhaglen deledu

**Rhifau Mrs + y gair:**

dwy + TM
tair + X
pedair + X

# Defnyddio 'y' / 'r = the

## y + enw benywaidd unigol

**Treiglad meddal ar ôl 'y'** *:*

y gadair
y brifathrawes
y daith
y wers
y freuddwyd

y ddawns
y fam

**OND:** X **ll / rh**
y **ll**ygoden fawr
y **rh**aglen deledu

## y + enw gwrywaidd

**DIM treiglad**

y cwrs
y papur
y trên

y gliniadur
y bwyd
y drws

y llyfr
y mwydyn
y rhedwr

## y + enw lluosog

**DIM treiglad = DIM CENEDL/ *GENDER***

y cadeiriau
y pensiliau
y teithiau

y gwersi
y bwydydd
y dogfennau

y llygod
y merched
y rhaglenni

# Y TREIGLAD MEDDAL

| **Cysefin** | **Treiglad meddal** |
|---|---|
| t | D |
| c | G |
| p | B |
| d | Dd |
| g | - |
| b | F |
| ll | L |
| m | F |
| rh | R |

# YDY'R RHAIN YN FENYWAIDD NEU'N WRYWAIDD?

- Quizlet

# TREIGLO

Cenedl Enwau



|  |  |
| --- | --- |
| **penderfyniad** | **problem** |
| **tad** | **tudalen** |
| **cyfrifiadur** | **cacen** |
| **bws** | **brawddeg** |
| **drws** | **dogfen** |
| **geiriadur** | **gwraig** |
| **llyfr** | **llinell** |
| **mynydd** | **mynedfa** |
| **rhew** | **rhestr** |

# RHIFO

Cenedl Enwau



| |  |  |
|---|---|---|
| 1 | **un ci** | **un gath** |
| 2 | **dau gi** | **dwy gath** |
| 3 | **tri <u>chi</u>** | **tair cath** |
| 4 | **pedwar ci** | **pedair cath** |

# HWN / HON

Cenedl Enwau



- Y ferch hon
- Y bachgen hwn
- Y ddesg hon
- Y bwrdd hwn
- Y clustogau hyn



# BETH AM EIRIAU EICH MAES?



# SUT YDYN NI'N GWYBOD A YDY GEIRIAU'N FENYWAIDD NEU'N WRYWAIDD?

Mae cliwiau ar gael!



# MAE'R TERFYNIADAU (*WORD ENDINGS*) HYN FEL ARFER YN FENYWAIDD

- -aeth (barddoniaeth *poetry)*
- -fa (campfa *gym)*
- -en (seren *star)*
- -ach (cyfrinach)
- - as (cymwynas)
- -es (ysgrifenyddes *secretary*)
- -ell (llinell *line*)
- -eb (anfoneb *invoice*)
- -eg (dameg)

# MAE'R TERFYNIADAU (*WORD ENDINGS*) HYN FEL ARFER YN WRYWAIDD

- -awd (traethawd *essay*)
- -aint (maint *size*)
- -tid/did (ieuenctid *youth*)
- -rwydd (distawrwydd *silence*)
- -adur (cyfrifiadur)
- -wr (chwaraewr *player)*
- -edd (mawredd *greatness*)
- -yn (offeryn *instrument*)
- -iad (mynediad *entrance)*
- -deb (undeb *union*)

# YDYCH CHI EISIAU MEDDWL ETO AM EICH CARDIAU?



# GOSODWCH NODIADAU 'POST-IT' O GWMPAS YR YSTAFELL



# GWEITHGAREDD
# ACTIVITY

Benywaidd neu wrywaidd?
Feminine or masculine?

gwasanaeth
- dyddiadur
- breuddwyd
- malwoden
- planhigyn
- darllenwr
- derwen
- ystafell
- adolygiad
- awdures
- cyfrifiannell
- cymdeithas

cwpan
- glendid
- syniad
- plentyn
- garddwr
- diwydiant
- cyfrifoldeb
- piben
- gwybodaeth
- arwr
- oedolyn
- caredigrwydd
- aseiniad

# CHWARAE CHWAP!!



# Pa un sy'n gywir?

Y canolfan

Y ganolfan

# Pa un sy’n gywir?

Y gwaith

Y waith

# Pa un sy'n gywir?

Y desg

Y ddesg

# Pa un sy'n gywir?

Y bennaeth

Y pennaeth

Pa un sy'n gywir?

Y fynedfa

Y mynedfa

# Pa un sy'n gywir?

Y blentyn

Y plentyn

# Pa un sy’n gywir?

Y bêl

Y pêl

# Pa un sy’n gywir?

Y farn

Y barn

# TASG 1

Tasg Enwau

# Wythnos nesaf: Mini Meicro

- Grwpiau o dri
- Cyflwyno elfen ar genedl enwau i'r plant – gweithgaredd cwestiynu, cyflwyno EB/EG o gwmpas cyd-destun penodol e.e.
- Cyfnod Sylfaen – chwarae gwlyb, y tywod, cornel darllen
- CA2 – mynd ar daith, trafod llosgfynyddoedd…
- Bydd angen i bawb gyflwyno am bum munud
- Bydd angen i bawb roi adborth – un peth da, un peth i'w ystyried – nid beirniadaeth!
- Dim byd cymhleth – gwybodaeth bynciol sy'n bwysig.

# Wythnos nesaf:

- Yr Amhersonol
- Gwallau cyffredin yn deillio o'r awdit.